**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 5 Tachwedd 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 20 Tachwedd 2019 |

**PWNC**

Eitem 6:YSGOL LLANAELHAEARN

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Y rheswm dros ofyn am ganiatâd i ymgynghori ar sail y cynnig a ffafrir yw'r angen i gyfarch sefyllfa fregus yr ysgol. Mae cwymp sylweddol mewn niferoedd wedi bod yn ddiweddar sydd wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgwyl ar y gofrestr, a dengys rhagamcanion y bydd cwymp pellach gyda 5 disgybl ar y gofrestr erbyn 2021.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynhorwyd â'r Aelod Lleol a thrafodwyd gyda  budd-ddeiliaid lleol.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 5 Tachwedd 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 20 Tachwedd 2019 |

**PWNC**

Eitem 7:ARBEDION TEITHIO STAFF CYNGOR GWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i fabwysiadu'r cynllun teithio amgen i staff, a chwtogi cyllidebau adrannol fel a ganlyn i adlewyrchu lefel cytunedig yr arbedion perthnasol (cyfanswm £117,998) –

Addysg £9,775
Amgylchedd £8,772
Cefnogaeth Gorfforaethol £7,064
Cyllid £2,379
Economi a Chymuned £6,526
Oedolion £33,183
Plant £31,463
Priffyrdd a Bwrdeistrefol £3,463
Tîm Arweinyddiaeth £1,159
Ymgynghoriaeth £13,130
Tai ac Eiddo £1,084

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Strategaeth Ariannol bresennol y Cyngor yn cynnwys arbedion yn deillio o lwfansau teithio staff. Yn dilyn adolygiad cydnabyddwyd angen i fabwysiadu cynllun diwygiedig na fydd yn effeithio'n andwyol ar wasanaethau.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Nodwyd y bydd y newidiadau yma i deithio staff yn effeithio'r swyddogion presennol, ond nad oedd angen iddynt adael y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 5 Tachwedd 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 20 Tachwedd 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 8:FFRAWMAITH DATBYGLU CENEDLAETHOL:YMGYNGHORIAD

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

- Gymeradwyo'r ymateb drafft i ymgynghoriad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- Roi'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet i ymgymryd ag unrhyw newidiadau sydd yn deillio o drafodaethau'r Cabinet gan gynnwys newidiadau golygyddol a gweinyddol
- Rhoi'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet i lunio blaen-lythyr i amlygu prif bwyntiau'r Cabinet a'i gyflwyno gyda'r ymateb erbyn 15 Tachwedd 2019.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, mae'r ddogfen ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac mae angen cyflwyno ymateb erbyn 15 Tachwedd 2019.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---